# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

## Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Medi 12 2023

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd), John Gwynedd Roberts, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Gwilym Jones, Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :- Cynghorwyr** :- Llywelyn Rhys, Llinos Murphy, Dr Melfyn Edwards

**107.9.23. Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Sandra Bodden Jones, Connor Westwood

**108.9.23 Adroddiad y Cadeirydd.**

“Noswaith dda a chroeso i gyfarfod cyntaf Cyngor Tref Porthmadog ar ôl toriad yr haf.

Edrych yn ôl ers y cyfarfod diwethaf - Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i bob un a gafodd ganlyniadau arholiadau ac ati a dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol ar eu taith yrfa nesaf.

**Cofion** - Cydymdeimlwn a chofion at bawb yn yr ardal sydd wedi colli eu hanwyliaid.

**Y Stryd Fawr** - Gweld dros yr haf fod cyfnodau prysur ar y stryd fawr er na gafwyd tywydd perffaith dros fis Gorffennaf ac Awst. Pwy a ŵyr beth sydd yn ein disgwyl dros fisoedd y Gaeaf ac ymlaen i dymor yr haf 2024. I mi mae'r Stryd Fawr Porthmadog yn dal ei thir ac ambell i adeilad ar hyn o bryd yn cael gwariant arnynt er mwyn agor yn y dyfodol.

**Ar gyrion y Stryd Fawr** - Dal i ddisgwyl cadarnhâd ar ddyfodol 'Wilkos' a'i staff, amser pryderus iddynt oll. Gwariant yn digwydd ar un o archfarchnadoedd y dref dros y misoedd nesaf. Sawl datblygiad yn digwydd ar Stad Ddiwydiannol Penamser fel rhan o Brosiect Gweledol Eryri - prosiect o gladdu'r ceblau trydan rhwng Minffordd a Llandecwyn dros y 7 mlynedd nesaf. Prosiect Loteri Boston Lodge bron hanner ffordd erbyn hyn gyda gwariant o £3.8 miliwn dros dair blynedd a National Grid wedi dechrau profi yn yr ardal er mwyn dechrau ar y prosiect tair blynedd o uwchraddio'r ceblau trydan tanddaearol rhwng Penmorfa a Glaslyn. O bosib bydd pob prosiect yn helpu'r economi leol dros y blynyddoedd nesaf. Da gweld sylw yn y papurau ynglŷn â rhyddhau tir i ddatblygu unedau newydd ar ôl i Gyngor Tref godi'r eitem ychydig fisoedd yn ol.

**Eisteddfod** - Dyma hi wedi dod ac wedi mynd ac yn llwyddiant ysgubol yn ôl y wasg. I mi dydw i ddim yn siŵr faint mae ardaloedd yn elwa erbyn hyn gyda’r rhan fwyaf o'r eisteddfodwyr ddim yn mentro allan o gwmpas yr ardal yn enwedig os yw hi yn cymryd cyhyd i gyrraedd a gadael y maes.
Llongyfarchiadau a diolch i bawb oedd ynghlwm â'r addurno cyn yr ŵyl. Disgynnodd phopeth i'w le yn daclus a gobeithio fod ardal Porthmadog wedi cael ei rhoi ar y map gyda lluniau ar y gwefannau cymdeithasol, y wasg ac ati.

Diolch i chwi fel cynghorwyr ac ymlaen a ni i dymor newydd 2023/24.”

**109.9.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

**Cyfarfod Llawn Gorffennaf 11 2023**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.
**Is-Bwyllgor Cyllid Gorffennaf 25 2023**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.
**Is-Bwyllgor Eiddo Gorffennaf 25 2023**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng John Gwynedd Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**110.9.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**
Dim datganiad o ddiddordeb.

**111.9.23 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais .: C23/0604/44/HY ( wedi ebostio 9.8.23.)**
Lleoliad : Tesco Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NU
Bwriad : Gosod dau 'gantri' dwy ochrog 5.7m wedi ei oleuo yn fewnol
**Penderfynwyd** :- **dim gwrthwynebiad** cyn belled nad ydynt yn torri'r coed i wneud lle i osod y 'gantri' newydd.

**(b) Rhif Cais .: C23/0628/44/LL ( wedi ebostio 15.8.23.)**
Lleoliad: Land North Of Blacksmiths Close, Porthmadog, LL49 9NZ
Bwriad : Adeiladu gwaith sypynnu concrit
**Penderfynwyd** :- **dim gwrthwynebiad** cyn belled bod swyddogion Adrannau Amgylcheddol Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r cais a'r Clerc i holi'r Adran Cynllunio o ble ddaeth yr enw Blacksmiths Close.

(c) **Ymgynghoriad Trwyddedu – ( wedi ebostio 1.9.23)**
**Cais Amrywio Trwydded Eiddo - Clwb Llyn Bach, Heol Yr Wyddfa**
**Penderfynwyd** :- **dim gwrthwynebiad** i ymestyn oriau gweithgareddau **tu mewn** i'r Clwb ond **gwrthwynebu** ymestyn oriau gweithgareddau y **tu allan** i'r Clwb yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**(ch)** ) **Ymgynghoriad Trwyddedu – ( wedi ebostio 1.9.23)**
**Cais Trwydded Eiddo Newydd - Newell's Bistro, Stryd Fawr, Porthmadog**
**Penderfynwyd** :- dim gwrthwynebiad.

**MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**112.9.23 Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 25.7.23**
**Penderfynwyd** :- cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 25.7.23 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**113.9.23 Cyng Alwyn Gruffydd :- cynnig holi Esgobaeth Bangor a'r Eglwys yng Nghymru beth yw dyfodol adeilad Eglwys Sant Ioan a'r beddi yn y fynwent.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**114.9.23 Cyng Aled Griffith :- Cynnig ail-edrych ac efallai diwygio / symleiddo ffurflen gais Cais am Gyfraniad Ariannol**
Cytunwyd fod y ffurflen yn ddigon syml fel y mae ac mai cyflwyno mantolen ffurfiol oedd yn creu trafferth i rai ymgeiswyr.
**Penderfynwyd :-** y Clerc i :-

- yrru copi o'r ffurflen allan ymlaen llaw i bawb wnaeth ymgeisio am nawdd dros y 3 blynedd diwethaf;
- greu tabl o ymgeiswyr y 3 blynedd diwethaf yn cynnwys faint oedd swm y cyfraniad a beth oedd pwrpas y cais;
- hysbysebu'r broses o wneud cais am nawdd yn Yr Wylan ac ar Facebook

**115.9.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Hydref 10 2023 = Medi 30 2023 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

**Cyng Carol Hayes :-** Cynnig ein bod yn cysylltu ar frys gyda'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i fynegi ein siom am y gwasanaeth difrifol wael y mae'r dref wedi dderbyn gan Dîm Tacluso Ardal Ni, gan ofyn iddynt weithredu yn syth i lanhau palmentydd Porthmadog , chwynnu a glanhau a thacluso.

**116.9.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
Nodwyd fod nifer fawr o'r llythyrau bellach wedi cael eu hateb ac y disgwylir ateb i lythyrau 4.2.23 cyn y cyfarfod nesaf
**Penderfwyd :-** dileu llythyr Premier Inn wedi iddo gael ei yrru 3 gwaith.

**<u>GOHEBIAETH :</u>**

**117.9.23 DŴR CYMRU, Ymateb i 64.6.23 holi am raglen waith Porthmadog**
Cytunwyd mai siomedig iawn oedd ymateb Dŵr Cymru i'r cais am raglen waith Porthmadog gan fod cynnwys y llythyr yn niwlog iawn ac nad oedd yn cynnig atebion pendant na unrhyw syniad o fwriad Dŵr Cymru ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth.
**Pendefynwyd :-** ysgrifennu'n ôl i fynegi'r uchod ac i ofyn

- Beth yn union yw pryderon Dŵr Cymru am y sefyllfa?
- Os ydynt yn cydnabod bod gwendidau yn y sustem yna beth yn union maent am ei wneud i gywiro'r sefyllfa?

yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**118.9.23 FRANCES TAYLOR, Ymateb i 66.6.23 gofyn am ymateb yn Gymraeg**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**119.9.23 UN LLAIS CYMRU, Canllaw gweithredu hinsawdd a natur**
**Dogfen Mynd i'r afael ag anhrefn hinsawdd (copi electronig 43 tudalen yn unig)**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**120.9.23 TOM HAYNES, Coedwig genedlaethol i Gymru**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**121.9.23 IWAN AP TREFOR C.G., Ymateb i 88.7.23 rhwystr Cob Crwn**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**122.9.23 MERYL GREEN Ymateb i 104.7.23 mainc Eglwys Sant Ioan**
**Newid i'r cais gwreiddiol – lleoli'r fainc ar Cob Crwn**
**Penderfynwyd :-** y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ganiatâd i osod mainc Sant Ioan yn safle mainc John Charles; wedyn rhoi rhif ffôn Alan G. Jones i Meryl Green i wneud y trefniadau a rhoi mater mainc John Charles ar agenda'r Is-Bwyllgor Eiddo ym mis Tachwedd.

**123.9.23 ANEURIN MON PARRY C.G., Ymateb i 88.7.23 goleuadau'r barbwr Viva**
Clywyd fel yr oedd y goleuadau yn parhau i gael eu defnyddio er i'r barbwr dderbyn rhybudd a bod rhybudd gorfodaeth ar ei ffordd iddo.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu'n ôl gyda thystiolaeth ffotograffig o'r goleuadau er mwyn dangos nad oedd y rhybudd wedi cael effaith ac i gryfhau'r achos o rybudd gorfodaeth yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**124.9.23 KEIRA SWEENIE C.G, Ymateb i 98.7.23 Ceisiadau Cynllunio**
**Penderfynwyd :-** cynnal cyfarfod ychwanegol bob trydydd nos Fawrth o'r mis ( os bydd angen ) er mwyn trafod unrhyw geisiadau cynllunio dadleuol ac adrodd arnynt erbyn y dyddiad penodedig yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**125.9.23 MABON AP GWYNFOR, Ymateb i 25.5.23 gwasanaeth bws i Alltwen**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**126.9.23 BETHAN PRICE, Diweddariad Grwp cleifion Hwb iechyd Eifionydd**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**127.9.23 GWYN LLOYD EVANS C.G., Ymateb i 86.7.23 mainc goffa John Charles**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**128.9.23 CYFOETH NAT. CYMRU, Cynnal cyrsiau dŵr Porthmadog**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**129.9.23 GWASANAETH TÂN, Ymgynghoriad cyhoeddus**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**130.9.23 EINIR PRITCHARD C.G., Prosiectau cymunedol**
Cytunwyd fod cynnwys y llythyr braidd yn anelwig ac nad oedd y Cyngor yn deall yn iawn beth oedd byrdwn ei neges.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu'n ôl i gynnig i Einir Pritchard ddod i gyflwyno mwy o wybodaeth i'r Cyngor yng nghyfarfod nesaf y Cyngor neu iddi ysgrifennu'n ôl gyda mwy o wybodaeth am y prosiect yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**131.9.23 NATIONAL GRID, Cynllun Cae Bodawen**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**132.9.23 HANNAH JOHNSON C.G., Prosiect bwrdd cyfathrebu**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**133.9.23 RHIAN GEORGE C.G. a HANNAH JOYCE C.G., Baneri polion lamp**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**134.9.23 JOHN IDWAL WILLIAMS C.G., Gosod bwrdd dehongli Madocks**
Dangoswyd lleoliadau posibl i osod y bwrdd dehongli a chytunwyd mai bwrdd dehongli am William Madocks a'i hanes yn sefydlu'r dref fyddai orau ar gyfer y lleoliad.
**Penderfynwyd :-** llunio ail gais cynllunio i osod bwrdd dehongli o'r un maint ac o'r un gwneuthuriad a chynllun â'r ddau sydd ar y Cob Crwn ( a gan yr un artist) i'w osod yn ymyl cerflun Madocks.

**135.9.23 ADRAN AMGYLCHEDD C.G., Rhybudd cyfarwyddyd erthygl 4**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**136.9.23 STEFFAN JONES, Ymateb i 81.7.23 cais am raglen glanhau strydoedd**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**137.9.23 DAFYDD WYN WILLIAMS C.G., Llwybrau – Cyllid Eiddo**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**138.9.23 ADRAN CYNLLUNIO Gorchymyn diogelu coed – y Garth**
**Y gorchymyn – copi electronig yn unig ( 14 tudalen )**
**I x copi caled ar y bwrdd**
**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad.

**139.9.23 CYFOETH NATURIOL CYMRU, Gwahoddiad i Ddigwyddiad Llifogydd Cymunedol 2023**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**140.9.23 ETHOLIADAU GWYNEDD, Holiadur i'w lenwi ar y cyd**
Cofnodwyd yr atebion i'r cwestiynau ar yr holiadur a bydd y Clerc yn eu bwydo i'r holiadur ar-lein ac

yn ei yrru'n ôl i Etholiadau Gwynedd.

**141.9.23 NIA JEFFREYS C.G., Ymateb i ymholiad am gyfraniad Nadolig Caru Port**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**142.9.23 UN LLAIS CYMRU, Digwyddiad ar y cyd 8.11.23**
**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth.

**143.9.23 MICHAEL PARRY, Cyfarfod cyhoeddus Ambiwlans Awyr 18.10.23**
Nodwyd bod Cyng Gwilym Jones am fynychu'r cyfarfod.
**Penderfynwyd :-** cynnwys y llythyr unwaith eto yng ngohebiaeth 10.10.23 yn y gobaith y bydd mwy o aelodau'r Cyngor Tref yn gallu mynychu.

**<u>144.9.23 MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| CYNGOR GWYNEDD | Incwm meysydd parcio 2022 | £ 17,983.79 |
| H.S.B.C. | Llog Banc Mehefin / Gorffennaf 2023 | £ 43.86 |
| CYNGOR GWYNEDD | Praesept – Taliad 2 | £ 31,290.72 |
| H.S.B.C. | Llog Banc Gorffennaf / Awst 2023 | £ 51.48 |

**Biliau gwariant disgwyliedig Awst wedi eu talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Marian Roberts | LLinell Ffôn a Wê Gorffennaf 2023 | £ 59.09 |
| 2 | Marian Roberts | Cyflog Clerc Gorffennaf 2023 | £ 975.10 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Gorffennaf 2023 | £ 243.78 |
| 4 | Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws | £ 201.60 |
| 5 | Y Ganolfan | Cyfarfodydd mis Gorffennaf 2023 | £ 60.00 |

Nododd y Clerc mai £100.74 oedd anfoneb rhif 8 Ashley Hughes.
**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Marian Roberts | LLinell Ffôn a Wê Awst 2023 | £ 59.09 |
| 2 | Marian Roberts | Cyflog Clerc Awst 2023 | £ 975.10 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Awst 2023 | £ 243.78 |
| 4 | Marian Roberts | Tanysgrifiad Microsoft Teams 2023-24 | £ 58.80 |
| 5 | Xerox Finance Ltd | Llogi llungopîwr o 1.10.23 i 31.12.23 | £ 104.40 |
| 6 | Marian Roberts | Ad-daliad am dalu Comisiynydd Gwybodaeth Diogelu data cyn y dyddiad cau ar 11.9.23 | £ 40 .00 |
| 7 | Arena Group | Llungopïo hyd at 16.8.23 | £ 5.52 |
| 8 | Ashley Hughes Cyf | Papur llungopïo a dyddiadur desg 2024 | £ 100.74 |
| 9 | Un Llais Cymru | Hyfforddiant Un Llais Cymru - Cyllid Llywodraeth Leol - aelodau'r Is-Bwyllgor Cyllid 21.8.23 ( 5 x £38.00 ) | £ 190.00 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30.

Marian Roberts
( Clerc)
15.9.23